**Data Ysgolion Cynradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**

**Diben yr hysbysiad hwn yw rhoi sicrwydd bod Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr bob eilflwydd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.**

**Cysylltu â ni: PrimarySHRN@cardiff.ac.uk**

**Pwy ydym ni?**

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n cael ei arwain gan yr Athro Simon Murphy yn y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bob dwy flynedd, mae ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n aelodau o'r Rhwydwaith yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Mae data dienw, agregedig y myfyrwyr yn cael ei adrodd yn ôl i ysgolion trwy Adroddiadau pwrpasol Data Iechyd a Lles Myfyrwyr. Gall yr adroddiadau data hyn gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cynllunio gweithredu'r ysgol a hunanwerthuso'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd a Llesiant Meddyliol. Mae data dienw, agregedig yn cael ei adrodd yn ôl hefyd i Awdurdodau Lleol i'w helpu i gynllunio gweithredu ac mae data ar gael yn gyhoeddus ar lefel awdurdod leol, bwrdd iechyd a chenedlaethol trwy ddangosfwrdd data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/dangosfwrdd-data-shrn/ Fe'i datblygwyd ar y cyd rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a DECIPHer.

Mae data'n cael ei ddefnyddio hefyd i ymchwilio i iechyd a lles plant yn yr ysgol.

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r arolwg.

**Sut rydym ni'n casglu ymatebion i'r arolwg?**

- Ipsos (prosesydd y data) sy'n rheoli'r Arolwg Myfyrwyr ar ran Prifysgol Caerdydd (rheolydd y data). Prifysgol Caerdydd sy'n arwain Holiadur Amgylchedd yr Ysgol.
- Ysgolion sy'n trefnu cyflwyno'r arolygon, gan ddilyn arweiniad sy'n cael ei ddarparu gan y Rhwydwaith.
- Mae myfyrwyr ym mlynyddoedd 3 i 6 yn ateb yr arolwg yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth staff yr ysgol.

Mae'r arolwg yn cael ei ateb ar-lein a'i gwblhau ar gyfrifiaduron neu lechi yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynorthwyo ac yn diogelu fel rhan o'i harfer arferol.

**Pa wybodaeth bersonol ydym ni'n ei chasglu?**

Mae'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn holi pobl ifanc am amrywiaeth eang o ymddygiadau iechyd, sut maen nhw'n teimlo am yr ysgol a gwybodaeth ddemograffig. Nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth adnabyddadwy ac ni fyddwn yn gofyn am enwau'r myfyrwyr ar unrhyw adeg.

Mae'r wybodaeth sensitif ganlynol yn cael ei chasglu oddi wrth pob myfyriwr:

- Ethnigrwydd

**Am ba hyd ydym ni'n storio ac yn defnyddio data?**

Bydd data'n cael ei gasglu gan Ipsos ac wedyn ei drosglwyddo'n ddiogel i Brifysgol Caerdydd. Bydd holl atebion y myfyrwyr yn gwbl anhysbys gan na fydd y tîm ymchwil yn gwybod pwy sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Gall data hefyd gael ei ddefnyddio gan y tîm ymchwil, neu ymchwilwyr cymeradwy eraill, at ddibenion ymchwil anfasnachol yn y dyfodol. Gall data anhysbys yr arolwg gael ei gadw'n amhenodol pan fydd ganddo werth at ddibenion ymchwil wyddonol, er enghraifft fel y gallwn gyfuno data gydag arolygon cynt a diweddarach i ddeall newidiadau mewn lles plant gydag amser.

**Yr hawl i gwyno**

Prifysgol Caerdydd yw Rheolydd y Data ac mae'n ymrwymo i barchu ac amddiffyn eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog ar inforequest@cardiff.ac.uk. Mae rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, gan gynnwys eich hawliau a manylion am sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os hoffech gwyno, i'w cael ar y dudalen ganlynol: https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

**Hawliau unigol**

Mae gennych nifer o hawliau o dan gyfraith diogelu data a gallwch ddysgu rhagor am y rhain ar ein gwefan.

https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

Sylwch fod eich hawliau i fynediad i'ch data personol, ei newid neu ei symud yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os byddwch chi'n tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch rydym ni eisoes wedi'i chael. I ddiogelu eich hawliau, byddwn ni'n defnyddio cyn lleied o wybodaeth bersonol adnabyddadwy â phosibl.

Dyddiad y ddogfen: 13.09.24